Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Penybontfawr
# Canolfan Pennant
# Penybontfawr
# Powys
# SY10 0NT

**Dyddiad yr arolygiad:  Hydref 2012**

**gan**

**Wil Williams**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/11/2012**

## Cyd-destun

Cafodd Cylch Meithrin Penybontfawr ei sefydlu oddeutu deugain mlynedd yn ôl i ddarparu addysg cyn-ysgol cyfrwng Cymraeg i blant pentref Penybontfawr a'r ardal wledig eang o’i gwmpas. Mae’n cyfarfod yn y neuadd gymuned sydd ar dir Ysgol Gynradd Pennant. Mae’r lleoliad yn rhan o ddarpariaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Powys. Ym marn y lleoliad, nid yw’r ardal a wasanaethir ganddo yn ffyniannus nac ychwaith o dan anfantais economaidd a chymdeithasol. Caiff plant o bob gallu a chefndir eu derbyn i’r lleoliad. Nid oes yr un plentyn yn mynychu’r lleoliad ar hyn o bryd sydd ag anghenion dysgu ychwanegol nac yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.

Darperir sesiynau o dair awr ac ugain munud am dri bore’r wythnos ar gyfer plant dyflwydd a hanner i dair oed, er bod y nifer y sesiynau a fynychir gan unigolion yn amrywio yn ôl dymuniad rheini. Ar hyn o bryd, mae saith plentyn tair oed wedi'u cofrestru yn y lleoliad ac mae pedwar ohonynt yn cael eu hariannu gan y Bartneriaeth.

Cymraeg yw’r iaith a siaredir gartref gan ychydig llai na hanner y plant. Prif gyfrwng addysgu a dysgu’r lleoliad yw Cymraeg.

Cefnogir addysg y plant gan ddwy ymarferydd llawn amser a dwy arall rhan amser dros-dro. Mae pob un wedi’u cymhwyso’n briodol i addysgu’r blynyddoedd cynnar.

Ar ôl iddynt gwblhau eu cyfnod yn y lleoliad, bydd bron pob plentyn yn parhau gyda’u haddysg yn Ysgol Gynradd Pennant.

Arolygwyd y lleoliad ddiwethaf gan yr Arolygaeth Gofal a Gwasanaeth Cymdeithasol Cymru yn ystod Hydref 2011 a chan Estyn yn Nhachwedd 2006.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Digonol** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Digonol** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad cyfredol y lleoliad yn ddigonol oherwydd:

- bod y cwricwlwm yn eang a chytbwys ac yn ymdrin yn briodol â phob maes dysgu;
- bod darpariaeth addas ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu;
- bod sesiynau dysgu yn annog ymglymiad a mwynhad pob plentyn;
- bod darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo gofal, cymorth ac arweiniad;
- ni chaiff medrau meddwl a medrau datrys problemau'r plant eu datblygu'n ddigonol;
- ychydig o ddefnydd a wneir o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol; ac
- ni chaiff yr ardal y tu allan ei ddefnyddio i'w lawn botential.

**Rhagolygon gwella**

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn ddigonol oherwydd:

- bod ymarferwyr yn cydweithio'n agos fel tîm ac yn cyflawni eu cyfrifoldebau addysgu yn dda;
- defnyddir hunan-arfarnu'n effeithiol er mwyn adnabod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu;
- caiff sesiynau eu rheoli'n effeithiol;
- nad oes gweledigaeth digon clir ar gyfer datblygu a chreu synnwyr o bwrpas i waith y lleoliad; ac
- nad oes gweithredu digon pendant o ran rhoi blaenoriaethau cynllun datblygu ar waith.

## Argymhellion

Er mwyn gwella ymhellach, mae angen i'r lleoliad:

A1 greu synnwyr cryfach o bwrpas i waith y lleoliad;

A2 weithredu cynllun datblygu'r lleoliad mewn ffordd mwy pendant;

A3 wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl a datrys problemau plant;

A4 wneud gwell defnydd o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio i'r dyfodol; a

A5 datblygu ymhellach y defnydd o'r ardal ddysgu y tu allan.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | |
|---|---|

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Digonol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Caiff egwyddorion y Cyfnod Sylfaen eu hadlewyrchu'n addas yn ansawdd y profiadau dysgu a ddarperir ar gyfer plant. Gan fwyaf, mae ansawdd y cynllunio'n dda ac yn seiliedig ar y Fframwaith ar Gyfer Dysgu Plant 3 i 7 oed yng Nghymru. O ganlyniad, mae'r cwricwlwm a gynllunnir yn eang a chytbwys ac yn ymdrin yn briodol â phob maes dysgu. Mae'r amrediad eang o weithgareddau a gynllunnir yn bodloni anghenion bron pob plentyn ac yn eu hannog i wneud cynnydd priodol mewn gwybodaeth a dealltwriaeth ac yn y rhan fwyaf o'r medrau.

Ar y cyfan, mae'r cwricwlwm a gyflwynir dan do ac yn yr awyr agored yn ennyn diddordeb bron pob plentyn ac yn sicrhau bod y plant yn ddysgwyr gweithredol. Caiff pob un eu cymell i fentro ac arbrofi gyda phrofiadau newydd ac i ffurfio perthnasau clos ag oedolion a phlant eraill. Mae'r cyfleoedd cyson a gânt i wneud dewisiadau ac i archwilio eu hamgylchedd yn galluogi'r rhan fwyaf o blant i wneud cynnydd addas tuag at ddod yn ddysgwyr annibynnol.

Trwy gynllunio priodol, mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn caffael medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws y meysydd dysgu. Wrth iddynt ymgynnull mewn sesiynau amser cylch, caiff plant eu hannog i wrando'n astud ar gyfraniadau plant eraill, i ofyn cwestiynau ac i rannu eu profiadau gyda gweddill y grŵp. Cânt gyfleoedd cyson i ymuno mewn rhigymau a chaneuon ac i wrando ar straeon sy'n cael eu darllen iddynt gan ymarferwyr. Yn ddiweddar, mae'r ymarferwyr wedi dechrau darparu mwy o gyfleoedd i blant i arbrofi gyda gwneud marciau, fodd bynnag, nid oes diben digon clir pob tro i'r tasgau ysgrifennu.

Er bod pwyslais cryf ar ddysgu gweithredol, ychydig o sylw roddir ar ddatblygu medrau meddwl a medrau datrys problemau.

Mae ffocws cryf yn y lleoliad ar waith llafar Cymraeg ac ar annog dysgwyr yr iaith i ddefnyddio'r Gymraeg cymaint ag sy'n bosibl. Trwy ddathlu gwyliau a thraddodiadau Cymreig, mae'r plant yn datblygu eu hunaniaeth bersonol a diwylliannol yn gynyddol.

Mae'r plant yn cymryd rhan weithredol yn nhrefniadau ailgylchu'r lleoliad. Manteisir ar bob cyfle i ail-ddefnyddio defnyddiau ac i gompostio gwastraff bwyd. Ychydig o gyfleoedd gaiff plant i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o ddiwylliannau eraill.

**Addysgu: Digonol**

Trwy gydweithio agos a gwaith tîm effeithiol, llwydda'r arweinydd a'r staff i ddarparu sesiynau dysgu sydd wedi'u cynllunio'n ofalus ac sy’n annog ymglymiad a mwynhad pob plentyn. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar wybodaeth gyfoes am ddatblygiad plant ac yn defnyddio'u harbenigedd a'u profiad yn effeithiol tuag at ddiwallu anghenion pob plentyn. Er y crëir amgylchedd ysgogol a chyffrous y tu mewn sy'n cynnig nifer dda o ddewisiadau dysgu i'r plant, nid yw'r ardal y tu allan wedi'i datblygu i'r un graddau.

Nodwedd gref ym mhob sesiwn yw'r cyfleoedd gaiff plant i ddysgu trwy chwarae ac i wneud dewisiadau eu hunain ynghylch pa weithgareddau yr hoffent eu dilyn. Pan gaiff plant eu cyfarwyddo tuag at dasg sy'n cael ei harwain gan ymarferydd, ceir ffocws clir ar ddatblygu medrau penodol. Mae hwn yn arfer effeithiol.

Caiff ymddygiad plant ei reoli'n gadarnhaol ac yn effeithiol gan ymarferwyr. Mae pob oedolyn yn modelu iaith dda eu hunain ac yn ymyrryd yn bwrpasol yn chwarae plant. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro yn defnyddio holi i herio syniadau plant yn ddigonol nac yn eu hannog i fynegi barn am yr hyn a wnânt.

Mae gan y lleoliad weithdrefnau addas ar gyfer asesu cynnydd. Caiff plant eu hasesu ar fynediad i'r lleoliad a chedwir cofnodion manwl yn rheolaidd o gynnydd pob unigolyn yn y saith maes dysgu. Mae trefniadau effeithiol ar gyfer cynnwys rhieni wrth asesu eu plant ac i sicrhau eu bod yn gwybod sut y gallant helpu eu plant i wella. Fodd bynnag, ni chaiff plant ddigon o anogaeth i asesu eu cryfderau a'u gwendidau eu hunain fel eu bod yn deall yn raddol beth sydd angen iddynt ei wneud i wella. Mae'r lleoliad yn ddiweddar wedi sefydlu trefn fwy effeithiol ar gyfer arsylwi a chofnodi cynnydd grwpiau o blant ond, ar hyn o bryd, ychydig o ddefnydd a wna'r ymarferwyr o wybodaeth asesu ar gyfer cynllunio gweithgareddau ar gyfer y dyfodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo iechyd a lles pob plentyn yn llwyddiannus. Mae gan blant ymddiriedaeth gref yn yr ymarferwyr ac maent yn ddigon hyderus i fynd at unrhyw un ohonynt i geisio cymorth ac arweiniad neu i drafod eu pryderon. Mae'r arfer ddyddiol o fwyta ffrwythau yn ystod byrbrydau ac o chwarae yn yr ardal y tu allan, yn atgyfnerthu'r flaenoriaeth uchel a roddir yn y lleoliad ar fwyta'n iach ac ymarfer corfforol.

Mae'r cyfleoedd cyson a gaiff plant i arsylwi bywyd gwyllt yn eu hamgylchedd lleol yn cyfrannu'n dda tuag at greu synnwyr o ryfeddod a syfrdan am y byd maent yn byw ynddo. Mae darpariaeth dda ar gyfer hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol a chymdeithasol plant. Caiff gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch at oedolion a phlant eraill eu hatgyfnerthu’n gyson ac effeithiol trwy bob agwedd ar fywyd a gwaith y lleoliad. Wrth iddynt aeddfedu, anogir plant i fod yn fwy ymwybodol o'u hymddygiad ac i wahaniaethu rhwng yr hyn sy’n iawn a’r hyn sydd ddim yn iawn. Mae gweithgareddau megis 'Helpwr Heddiw,' yn rhoi cyfleoedd rheolaidd i bob plentyn ysgwyddo cyfrifoldeb. Rhoddir pwyslais cryf ym mhob sesiwn ar ddysgu plant i gymryd tro ac i rannu gydag eraill.

Pan fo plant ag anghenion dysgu ychwanegol yn y lleoliad, bydd ymarferwyr yn cydweithio’n glos gyda’r awdurdod lleol ac asiantaethau arbenigol eraill er mwyn sicrhau darpariaeth briodol.

Mae'r trefniadau sefydlu trylwyr ynghyd â'r berthynas agos gyda'r rhieni, yn sicrhau bod plant newydd yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn cymryd gofal mawr o bob plentyn ac yn sicrhau eu diogelwch bob amser.

Mae trefniadau’r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn gymuned gynhwysol lle caiff yr holl blant hawl gyfartal i holl feysydd darpariaeth y lleoliad. Rhoddir pwyslais cryf ar gydnabod, parchu a dathlu amrywiaeth. Mae gan y lleoliad ddigon o ymarferwyr, sy'n meddu ar wybodaeth ac arbenigedd digonol i addysgu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Ceir cyflenwad helaeth o adnoddau o ansawdd da i gefnogi dysgu'r plant ar draws yr holl feysydd dysgu a'r medrau. Cânt eu defnyddio'n effeithiol gan blant ac ymarferwyr i gefnogi dysgu. Gofala'r ymarferwyr bod yr holl adnoddau o fewn cyrraedd plant a'u bod yn gymharol rwydd i'w hestyn a'u cadw. Caiff adnoddau'r gymuned a’r amgylchedd lleol eu defnyddio'n addas i ychwanegu at adnoddau'r ystafell ddosbarth ac i gyfoethogi'r cwricwlwm.

Er bod ardal ddiogel a diddorol wedi’i sefydlu y tu allan i’r ystafell ddosbarth, nid yw ar hyn o bryd wedi’i datblygu i’w llawn botensial fel adnodd dysgu ac addysgu.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw’r arweinyddiaeth a’r rheolaeth?** | **Digonol** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Digonol**

Cydweithia'r ymarferwyr yn agos iawn fel tîm gan gyflawni eu cyfrifoldebau addysgu yn dda. Cânt eu cefnogi gan arweinydd cydwybodol sy'n llwyddo i greu ethos lle mae plant a staff yn teimlo'u bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae pob un o’r staff yn deall ac yn cyflawni eu rolau yn effeithiol ac yn rhannu gwerthoedd cytûn am ddysgu, ymddygiad a pherthynas. Mae'r arweinydd yn rheoli sesiynau yn effeithiol ac yn gwneud defnydd da o amser ac arbenigedd staff. Er hynny, nid oes gweledigaeth digon clir ar gyfer datblygu'r lleoliad ac nid oes gweithredu digon penderfynol o ran gweithredu blaenoriaethau gwelliant.

Mae systemau addas ar waith ar gyfer rheoli perfformiad staff. Caiff perfformiad y flwyddyn flaenorol ei adolygu ar y cyd gyda'r arweinydd a chytunir ar dargedau gwelliant ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Nodir anghenion datblygiad proffesiynol staff ac archwilir ffyrdd i'w diwallu.

Cyflawna'r pwyllgor rheoli ei gyfrifoldebau'n gydwybodol iawn. Mae gan swyddogion y pwyllgor wybodaeth addas o rai o brif flaenoriaethau'r lleoliad ac maent yn ystyried gofynion deddfwriaeth ac arweiniad perthnasol yn ofalus. Nid yw eu rôl o ran dwyn y lleoliad i gyfrif am y safonau a'r ansawdd y mae'n ei gyflawni wedi ei ddatblygu'n llawn.

Mae'r lleoliad yn bodloni nifer fechan o flaenoriaethau cenedlaethol, megis y Cyfnod Sylfaen, yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid oes gweithredu digon bwriadus ar gyfer mynd i'r afael â phrif flaenoriaethau awdurdod lleol, sef rhoi dulliau asesu ar gyfer dysgu ar waith a datblygu medrau meddwl plant.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Gydag arweiniad athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol, mae'r lleoliad yn ymgymryd â hunan-arfarniad yn flynyddol ac yn defnyddio'r broses yn effeithiol er mwyn canfod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Rhoddir cyfleoedd addas i rieni, ymarferwyr ac aelodau'r pwyllgor rheoli i gyfrannu i'r broses. Er hynny, tuedda deiliannau hunan-arfarnu i fod yn rhy arwynebol ac i ganolbwyntio'n ormodol ar wella'r ddarpariaeth yn unig.

Caiff y blaenoriaethau a ddaeth i'r amlwg trwy hunan-arfarnu eu hymgorffori mewn cynllun datblygu addas. Fodd bynnag, mae diffyg pendantrwydd yn y modd y rhoddir y cynllun ar waith ac mae hyn yn lleihau ei effaith ar ddatblygiad y lleoliad.

Gwnaeth y lleoliad gynnydd da mewn dau o'r tri argymhelliad a nodwyd yn adroddiad yr arolygiad diwethaf. Mae gwneud gwell defnydd o ddeilliannau asesu yn parhau i fod angen sylw pellach.

Mae'r sesiynau hyfforddiant rheolaidd a gynhelir gan yr awdurdod addysg a'r Mudiad Meithrin yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ymarferwyr ddiweddaru eu gwybodaeth a'u medrau ac i sicrhau bod ganddynt wybodaeth gyfoes o ddatblygiadau yn y Cyfnod Sylfaen. Trwy rannu adborth hyfforddiant ac arsylwi ei gilydd yn y lleoliad, mae'r ymarferwyr yn rhannu arfer dda yn rheolaidd ac yn dysgu llawer oddi wrth ei gilydd. Mae'r arferion hyn yn arwain at well dysgu ac addysgu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae ystod eang o weithgareddau partneriaethau yn cyfrannu'n gryf at gyflawniadau a lles plant.

Mae partneriaeth gref rhwng y lleoliad a'r cartref. Caiff y rhieni eu hysbysu'n rheolaidd am bob agwedd ar waith y lleoliad a chymerir camau gweithredol i'w cynnwys yn yr holl weithgareddau a drefnir. Mae'r bartneriaeth gynhyrchiol gyda'r ysgol gynradd yn hwyluso trefniadau trosglwyddo yn sylweddol ac yn galluogi plant i ymgartrefu'n ddiffwdan yn y dosbarth meithrin. Manteisia'r lleoliad yn fawr ar ddefnyddio adnoddau a chyfleusterau'r gymuned leol er mwyn cyfoethogi profiadau dysgu'r plant. Gwna hefyd ddefnydd achlysurol o gyfraniad pobl o'r gymuned leol i rannu eu profiadau gyda'r plant.

Mae ymweliadau, adroddiadau a chyngor proffesiynol cyson athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad y lleoliad. Er hynny, mae'r lleoliad, ar brydiau, yn araf i weithredu'r argymhellion a wneir gan yr athrawes. Mae'r arweinydd hefyd yn derbyn cefnogaeth reolaethol fuddiol gan swyddog datblygu'r Mudiad Meithrin.

**Rheoli adnoddau: Digonol**

Mae'r lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithiol. Gwna'r arweinydd ddefnydd effeithiol o amser a phrofiad staff er mwyn sicrhau bod gofal a chynhaliaeth dda ar gael i bob plentyn. Gan mwyaf, defnyddir cyllid yn effeithiol i fynd i'r afael â rhai o flaenoriaethau'r lleoliad.

Mae trysorydd y pwyllgor rheoli yn cadw cofnod manwl iawn o sefyllfa gyllidol y lleoliad ac yn gwneud yn siŵr bod gwariant yn cael ei reoli'n ofalus. Fodd bynnag, ni chaiff lefelau gwariant eu hadlewyrchu yn ansawdd y ddarpariaeth a'r arweinyddiaeth. Mae'r lleoliad yn rhoi gwerth digonol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**
Nid oes sylwebaeth ar yr holiaduron i rieni gan mai nifer fach o ymatebion a ddaeth i law (llai na 10).

**Ymateb i drafodaethau gyda phlant**

Mae'r plant yn dweud eu bod yn hapus yn y lleoliad a'u bod yn hyderus i droi at unrhyw oedolyn i ofyn am gyngor neu arweiniad.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Wil Williams | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |